

Memorandwm esboniadol - Memorandwm Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol ar yr effaith ddisgwyliedig o Orchymyn Datblygu Ffiniau Gwlad a Thref (Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023. Rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Gweinidog Newid Hinsawdd

06 Mawrth 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r gorchymyn datblygu arbennig hwn ("y Gorchymyn") yn rhoi caniatâd cynllunio yn destun amodau ar gyfer adeiladu a gweithredu safle rheoli ffiniau ac adeiladu a gweithredu parcio ar gyfer hyd at 60 o gerbydau nwyddau trwm (HGVs) yn Plot 9, Parc Cybi, Caergybi.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae adran 59(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y gallai gorchymynion datblygu arbennig fod yn berthnasol i dir neu ddisgrifiadau o dir o'r math sy'n cael eu nodi yn y Gorchymyn yn unig.
- 2.2 Mae'r Gorchymyn yn cyfeirio at fap, y mae copi ohono ar gael i'w archwilio yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, ar https://www.llyw.cymru/gorchymyn-datblygu-arbennig-safle-rheoli-ffiniau-caergybi?_ga=2.64112047.1061393376.1678118696-584714650.1663661241&_gl=1*e25m0g*_ga*NTg0NzE0NjUwLjE2NjM2NjEYnDE.*_ga_L1471V4N02*MTY3ODExODczMS4xMC4wLjE2NzgxMTg3MzEuMC4wLjA ac yn Adran Cyngor Sir Ynys Môn, Adran Cynllunio a Rheoli Adeiladu, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.
- 2.3 Mae Llain 9, Parc Cybi, Caergybi yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer parcio HGV o dan ganiatâd cynllunio dros dro sydd i'w gyhoeddi tan fis Tachwedd 2023. Byddai'r Gorchymyn yn caniatáu cadw rhai, neu'r cyfan, o'r arwyneb caled a grëwyd ar gyfer y defnydd dros dro.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae adrannau 59(1), (2)(a) a (3)(b), a 60(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn datblygu arbennig sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu a bennir yn y Gorchymyn neu ar gyfer datblygu unrhyw ddsbarth a bennir.
- 3.2 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59 a 60(1), i'r graddau yr oedd yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o, ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672). Mewnosodwyd y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Erthygl 4 o, ac Atodlen 3 i, Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (S.I. 2000/253). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o a pharagraff 5 i Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac mae'n darparu bod cyfeiriadau at

orchymyn datblygu o ran Cymru, at orchymyn datblygu a wnaed gan Weinidogion Cymru.

3.3 Mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn ddatrys negyddol.

4. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

- 4.1 Mae'r bwriad i adeiladu a gweithredu safle rheoli ffiniau mewndirol ar gyfer Porthladd Caergybi a pharcio HGV ychwanegol ar gyfer y dref yn Llain 9, Parc Cybi yn galw am ganiatâd cynllunio oherwydd ei fod yn gyfystyr â datblygiad fel y'i diffinnir gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 4.2 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio, naill ai'n uniongyrchol drwy orchymyn datblygu, neu drwy orchymyn datblygu sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyflwyno cais cynllunio.
- 4.3 Mae'r Gorchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio uniongyrchol i'r datblygiad ym Mharc Cybi yn destun amodau, ac mae'r gorchymyn yn berthnasol i'r safle hwnnw yn unig.
- 4.4 Mae angen safle rheoli ffiniau i gynnal archwiliadau o nwyddau sy'n seiliedig ar blanhigion ac anifeiliaid i ddiogelu bioddiogelwch a diogelwch bwyd. Gelwir y rhain yn wiriadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) ar nwyddau'r Undeb Ewropeaidd (UE) o dan y Rheoliadau Rheoli Swyddogol (OCR).
- 4.5 Mae angen parcio HGV i wrthbwysu gostyngiad mewn capasiti parcio o ganlyniad i gau'r hen arhosfan lorïau Roadking, a thrwy hynny atal niwsans a achosir gan barcio direolaeth ar draws Caergybi.
- 4.6 Os na chaiff y gorchymyn ei wneud, byddai angen i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i safleoedd eraill ar gyfer y datblygiad hwn. Heb safle rheoli ffiniau, mae perygl na fydd llwythi yn cynnwys nwyddau iechydol a ffytoiechydol yn gallu parhau i ddefnyddio'r porthladd.
- 4.7 Mae'r Gorchymyn yn gosod cyfyngiadau ar raddau a ffurf ffisegol cyfleusterau rheoli ffiniau a pharcio HGV y gellir ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac adrannau ffiniau ar y tir. Mae hefyd yn gofyn am adeiladu a gweithredu mesurau lliniaru er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael effeithiau cynllunio derbyniol.
- 4.8 Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y traffig sy'n defnyddio Porthladd Caergybi. Mae hefyd yn effeithio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn darparu gwasanaethau rheoli ffiniau ar y safle. Mae natur 'amlen' y caniatâd a roddwyd gan y Gorchymyn yn rhoi hyblygrwydd i gyfleusterau safleoedd rheoli ffiniau gael eu newid yn y dyfodol heb orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio os ydynt yn parhau o fewn y terfynau a osodwyd gan y caniatâd. Gosodir y terfynau hyn fel bod effeithiau cynllunio'r datblygiad yn dderbyniol, megis yr effaith ar amwynderau trigolion cyfagos.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 Nid oes unrhyw weithdrefnau cyhoeddusurwydd ac ymgynghori wedi'u nodi mewn deddfwriaeth gynllunio o ran gorchmynion datblygu arbennig. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gymesur â'r hyn a fyddai wedi'i wneud ar gyfer cais cynllunio.
- 5.2 Mae dau ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnal gan yr ymgeisydd. Cynhaliwyd y cyntaf rhwng 24 Mawrth 2021 a 13 Ebrill 2021, mewn perthynas â safle rheoli ffiniau ar y safle. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn <https://www.llyw.cymru/safle-rheoli-ffiniau-parc-cybi-gorchymyn-datblygu-arbennig>. Cynhaliwyd ail ymgynghoriad rhwng 16 Tachwedd 2022 a 7 Rhagfyr 2022 ar ychwanegu lle parcio HGV.
- 5.3 Yn ogystal â'r ymgynghoriad gan dîm prosiect yr ymgeisydd, cynhaliwyd ymgynghoriad parhaus gan y Gyfarwyddiaeth Cynllunio gyda Cyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru i fireinio'r amodau sydd wedi eu cynnwys o fewn y Gorchymyn.
- 5.4 Er bod ystod eang o faterion wedi'u codi gan ymgynghoriaethau, y mwyaf arwyddocaol yw materion sŵn, goleuadau ac effeithiau gweledol ar drigolion cyfagos. O ganlyniad i'r pryderon, mae amodau wedi'u cynnwys o fewn y Gorchymyn i liniaru'r materion a godwyd.
- 5.5 Mae rheoliad 63(3) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ac ystyried sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas ag asesiad priodol o brosiect sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle gwarchodedig, lle nad yw'r prosiect wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â rheoli'r safle hwnnw neu sy'n angenrheidiol iddo. Cadarnhaodd CNC eu bod yn cytuno â'r asesiad priodol a ddaeth i'r casgliad, yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru, na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw safle sydd wedi ei warchod gan y rheoliadau.

RHAN 2 – ASESIAD O'R EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Cyflwyniad

- 6.1 Mae cod asesu effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn nodi o dan ba amgylchiadau y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud asesiadau effaith rheoleiddiol (RIA). Nid yw gorchmynion datblygu arbennig yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf eithrio, felly gwnaed RIA. Nid yw pwrpas RIA, asesiad o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio ag is-ddeddfwriaeth berthnasol Cymru, fodd bynnag yn eistedd yn gyfforddus gyda'r Gorchymyn hwn. Nid yw'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn asesiad gwerth am arian gan nad oes modd ystyried rhai materion fel dibrisio eiddo unigolyn yn gyfreithiol yn y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio. Felly, er bod yr RIA hwn yn disgrifio costau a manteision y ddeddfwriaeth, mae o safbwynt deddfwriaeth cynllunio gwlad a thref ac nid yw'n fwriad i ddarparu achos busnes i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynllun. Dyna fydd i Lywodraeth Cymru, sy'n gweithredu yn ei rôl o ddatblygwyr, benderfynu arno unwaith y bydd yr holl gydsyniadau statudol wedi'u sicrhau. Un caniatâd yn unig yw caniatâd cynllunio. Mae cymeradwyo'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy yn ganiatâd arall sydd ei angen cyn y gall y gwaith ddechrau.
- 6.2 Gellir rhoi caniatâd cynllunio naill ai'n uniongyrchol drwy orchymyn datblygu neu drwy ddefnyddio cais cynllunio, gan ddefnyddio gweithdrefnau a osodir gan orchymyn datblygu. Fe benderfynodd Gweinidogion Cymru yn 2021 ystyried y datblygiad yma drwy orchymyn datblygu arbennig. Rhoddodd hyn hyblygrwydd, yn enwedig o ran amseru, fodd bynnag roedd hefyd yn adlewyrchu bod y datblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol ac felly fe ddylai Gweinidogion Cymru benderfynu yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol. Ers hynny, gwnaed gwaith i baratoi cais anffurfiol at y diben o ystyried a ddylid gwneud gorchymyn datblygu arbennig. Roedd y cais yn un 'anffurfiol' gan nad yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu trefn ar gyfer paratoi gorchymyn datblygu arbennig. Felly mae gofynion y broses fwy arferol ar gyfer cyflwyno cais i awdurdod cynllunio wedi cael eu dilyn cyn belled ag y bo modd.

7. Opsiynau

- 7.1 Mae tri opsiwn wedi eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwrthod caniatâd cynllunio a pheidio â gwneud gorchymyn datblygu arbennig

Opsiwn 2: Rhoi caniatâd cynllunio drwy orchymyn datblygu arbennig heb amodau

Opsiwn 3: Rhoi caniatâd cynllunio drwy orchymyn datblygu arbennig gydag amodau

- 7.2 Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

8. Costau a buddion

- 8.1 Mae dadansoddiad o'r opsiynau wedi eu seilio ar yr asesiad cynllunio a wnaed ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn hytrach na'r dadansoddiad cost a budd arferol a wnaed ar gyfer deddfwriaeth. Mae hyn oherwydd bod rhoi caniatâd cynllunio drwy orchymyn datblygu arbennig yn cael yr un effaith â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio yng nghyswllt cais gafodd ei gyflwyno yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Felly nid oes costau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol y tu hwnt i'r hyn a fyddai fel arfer yn deillio o gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, er enghraifft prosesu ceisiadau i ryddhau amodau cynllunio neu ddilyn camau gorfodi.
- 8.2 Mae'r sectorau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn cynnwys:
- Porthladd Caergybi
 - Busnesau sy'n mewnfario nwyddau sy'n tarddu o anifeiliaid a phlanhigion
 - Gweithredwyr HGV
 - Trigolion lleol
 - Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPAs) – Mae gan Gymru 25 Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae 22 o'r rhain yn yr awdurdodau unedol, gydag awdurdodau'r parc cenedlaethol, sy'n darparu eu swyddogaeth cynllunio trefi eu hunain, yn cyfrif am y 3 arall
 - Llywodraeth Cymru
- 8.3 Mae'r dadansoddiad cost a budd canlynol wedi'i wneud ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

Opsiwn 1: Gwrthod caniatâd cynllunio a pheidio â gwneud gorchymyn datblygu arbennig

Disgrifiad:

- 8.4 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu peidio â gwneud gorchymyn datblygu arbennig oherwydd casgliad y byddai effeithiau cynllunio'r datblygiad ar safle'r cais yn fwy na'i fanteision.
- 8.5 Er mai dyma'r opsiwn 'gwneud dim', mae newidiadau i gostau a buddion a fydd yn digwydd os na wneir dim. Mae hyn oherwydd bod gofyniad am wiriadau SPS corfforol yn cael ei gyflwyno a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar draffig porthladdoedd hyd yn oed os nad yw'r gorchymyn yn cael ei wneud.

Costau

Porthladd Caergybi

- 8.6 Mae'r costau am Borthladd Caergybi yn ansicr. Mae dau brif fater, faint o nwyddau sy'n gymwys i gael gwiriadau SPS ac a ellir dod o hyd i safle arall ar gyfer gwiriadau SPS.
- 8.7 Nid yw'r graddau y mae mewnforyn anifeiliaid a phlanhigion yn cefnogi hyfywedd busnes y porthladd yn hysbys. Bydd ystod y costau o ganlyniad i'r opsiwn hwn yn dibynnu a all Llywodraeth Cymru ddod o hyd i safle arall, ac os bydd yn gwneud hynny, beth mae lleoliad y safle hwnnw yn ei olygu i gostau gweithredwyr HGV. Gall lleoliad mwy anghysbell o Gaergybi a'r A55 gynyddu costau a fyddai'n gwneud y Porthladd yn llai deniadol ar gyfer traffig anifeiliaid a phlanhigion.
- 8.8 Os yw'r nwyddau sy'n gymwys ar gyfer gwiriadau SPS yn isel fel cyfran o refeniw busnes yna byddai methu â dod o hyd i safle sydd wedi'i leoli'n gyfleus yn cael llai o effaith ariannol ar y Porthladd. Fodd bynnag, os yw traffig sy'n seiliedig ar anifeiliaid a phlanhigion yn darparu cyfran uchel o incwm ar gyfer busnes y porthladd, bydd yn fwy sensitif i a oes modd dod o hyd i safle arall a chost ychwanegol y dewis arall hwnnw i weithredwyr HGV.
- 8.9 Mae ansicrwydd pellach ynghylch maint y gost i'r Porthladd yn codi oherwydd nad yw'n hysbys pa mor hir y byddai'n ei gymryd i sefydlu trefniadau dros dro, a'r gost ychwanegol i weithredwyr HGV i wneud hynny, tra bod safle parhaol amgen yn cael ei geisio ac yna ei adeiladu.

Busnesau sy'n mewnforyn nwyddau

- 8.10 Gall peidio â gwneud y gorchymyn achosi costau ychwanegol i fusnesau sy'n mewnforyn nwyddau anifeiliaid a phlanhigion. Bydd maint y costau i fusnesau unigol yn dibynnu ar faint o fasnach, costau trafndiaeth ychwanegol trefniadau dros dro a lleoliad safle rheoli ffiniau amgen.
- 8.11 Nid yw'n bosibl mesur costau busnes na phenderfynu a oes unrhyw effeithiau economaidd ehangach ar hyn o bryd. Bydd effaith y gost yn dibynnu ar leoliad y busnes a'i gwsmeriaid o'i gymharu â'r Porthladd. Efallai y bydd rhai busnesau yn gallu ail-drefnu eu nwyddau i borthladdoedd amgen yn hawdd, ond gall eraill wynebu cryn wyriad a thrwy hynny gynyddu costau yn sylweddol. Enghraifft waethaf o achos fyddai busnes mewnforyn bwyd yng Nghaergybi yn gorfod ail-drefnu nwyddau drwy Lerpwl gan nad yw gwiriadau SPS ar gael ym Mhorthladd Caergybi.

Gweithredwyr HGV

- 8.12 Mae'r costau i weithredwyr HGV o beidio â gwneud y Gorchymyn fel y disgrifir ar gyfer busnes sy'n mewnforyn nwyddau. Dyma'r costau trafndiaeth uwch yn dibynnu ar leoliad safle rheoli ffiniau amgen. Mae'r graddau y gallai gweithredwyr HGV basio costau ychwanegol ymlaen i'w

cwsmeriaid yn dibynnu ar elastigedd prisiau a lefel y gystadleuaeth yn y sector.

- 8.13 Mae dwy senario yn bosibl i weithredwyr HGV. Y cyntaf yw eu bod yn cael referniw ychwanegol oherwydd bod busnesau'n barod i dalu'n ychwanegol i gludo nwyddau i safle rheoli ffiniau ymhellach i ffwrdd na'r cynnig presennol. Mae'r ail yn un o referniw sy'n dirywio lle nad yw busnes yn gallu neu'n amharod i dalu am gostau trafniadaeth ychwanegol ac felly mae referniw o fewnforio nwyddau anifeiliaid a phlanhigion o lwerddon yn dirywio.
- 8.14 Cost ychwanegol i weithredwyr HGV o beidio â gwneud y Gorchymyn yw argaeledd parcio HGV yng Nghaergybi a'r tarfu y mae hyn yn ei achosi. Mae cau'r arhosfan lorïau Roadking wedi cael ei wrthbwysu dros dro gan ddefnyddio Plot 9, Parc Cybi. Mae caniatâd cynllunio ar gyfer parcio HGV dros dro tan fis Tachwedd 2023. Byddai'r Gorchymyn yn sicrhau defnydd parhaol o'r safle ar gyfer hyd at 60 HGV. Heb i'r Gorchymyn gael ei wneud byddai'n rhywbeth i'r awdurdod cynllunio lleol benderfynu a oes modd rhoi caniatâd cynllunio pellach i'r defnydd ohono. Os bydd parcio HGV yn dod i ben y tu hwnt i fis Tachwedd, yna byddai'n dod yn anoddach i weithredwyr HGV ddod o hyd i le parcio ar gyfer cyfnodau gorffwys gyrrwyr a chydlynu'r rhain gydag amserlenni hwylio fferi.

Trigolion Lleol

- 8.15 Efallai y bydd costau anuniongyrchol i drigolion oherwydd canlyniadau economaidd peidio â gwneud y gorchymyn fel yr amlinellir uchod. Byddai'r brif gost uniongyrchol yn deillio o barcio HGV di-reolaeth ar draws Caergybi pe bai'r parcio HGV yn Plot 9 yn dod i ben y tu hwnt i Dachwedd 2023. Byddai'r gost hon yn cael ei lleihau pe bai modd dod o hyd i barcio arall.

Awdurdod Cynllunio Lleol

- 8.16 Byddai costau i'r awdurdod cynllunio lleol o beidio â gwneud y gorchymyn yn cael ei gyfyngu i roi cyngor cynllunio a chynnal asesiad mewn perthynas â dod o hyd i safle arall.

Llywodraeth Cymru

- 8.17 Os na chafodd y Gorchymyn ei wneud byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid dod o hyd i safle arall. Ar ôl chwilio am safle, mae'r holl waith dylunio manwl wedi canolbwyntio ar Plot 9 felly byddai'r gost o ddod o hyd i safle newydd, cynnal yr holl arolygon amgylcheddol angenrheidiol a dylunio'r cynlluniau adeiladu ar gyfer yr holl broses. Costau dewis safle a dylunio hyd yma yw £3.2m.
- 8.18 Byddai dewis a dylunio safle yn cymryd misoedd i'w wneud. Os yw safle rheoli ffiniau SPS yn mynd i gael ei darparu i hwyluso parhau i gludo nwyddau anifeiliaid a phlanhigion drwy Gaergybi yna fe fyddai cost bosibl cyfleusterau dros dro

Buddion

Porthladd Caergybi

8.19 Does dim buddion i'r Porthladd o beidio gwneud y Gorchymyn.

Busnesau sy'n mewnfario nwyddau

8.20 Does dim buddion i fusnesau o beidio â gwneud y Gorchymyn.

Gweithredwyr HGV:

8.21 Gall fod refeniw ychwanegol i weithredwyr HGV os yw busnesau'n barod i dalu'r costau trafnidiaeth ychwanegol o gael mynediad at gyfleusterau rheoli ffiniau amgen. Efallai na fydd yn ymarferol fodd bynnag i gludo'r nwyddau y pellter ychwanegol.

Trigolion lleol

8.22 Ni fydd gwir fudd i drigolion sy'n byw ger y safle. Bydd y parcio HGV dros dro yn parhau tan fis Tachwedd. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn osgoi problemau sŵn, dirgryniad, llygredd golau ac effaith weledol i'r trigolion hynny sy'n byw agosaf at y safle.

Awdurdod Cynllunio Lleol

8.23 Nid oes unrhyw fudd i'r awdurdod cynllunio lleol o'r opsiwn hwn.

Llywodraeth Cymru

8.24 Nid oes unrhyw fudd i Lywodraeth Cymru o'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2: Caniatâd cynllunio grant drwy orchymyn datblygu arbennig heb amodau

Disgrifiad

8.25 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud y Gorchymyn ond heb gynnwys yr amodau yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

8.26 Mae rhoi caniatâd cynllunio heb amodau yn brin. Mae angen amodau i ddiffinio'r amlen amgylcheddol yn glir lle mae'n rhaid i'r datblygiad gadw o fewn iddynt, er mwyn osgoi effeithiau cynllunio annerbyniol. Fe'i cynhwysir fel opsiwn, fodd bynnag, i helpu i egluro costau a manteision yr amodau arfaethedig drwy ddisgrifio'r senario o gael eu hepgor o'r Gorchymyn.

Costau

Porthladd Caergybi

8.27 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r Porthladd o wneud y Gorchymyn.

Busnesau sy'n mewnforio nwyddau

8.28 Ni fyddai costau ychwanegol i fusnesau o wneud y Gorchymyn.

Gweithredwyr HGV

8.29 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i weithredwyr HGV o wneud y Gorchymyn.

Trigolion lleol

8.30 Byddai costau amgylcheddol sylweddol i drigolion lleol o'r opsiwn hwn, a fyddai'n gostwng pan fyddai preswylwyr yn byw ymhellach o'r safle. Byddai'r trigolion hynny sy'n byw yn agos at y safle yn debygol o weld effeithiau andwyol o sŵn, dirgryniad, llygredd golau ac effaith weledol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu. Heb amodau gall fod effeithiau annioddefol drwy'r cyfnod adeiladu gyda gweithgaredd adeiladu swmlyd 24 awr y dydd. Yn yr un modd byddai sŵn o symudiadau HGV 24 awr y dydd yn debygol o effeithio ar gwsgr os nad yw'n cael ei liniaru.

8.31 Gallai'r effeithiau ar amwynder fod yn is oherwydd Llywodraeth Cymru yw'r datblygwr o'i gymharu â rhai datblygwyr masnachol, fodd bynnag, mae'r potensial am effeithiau sylweddol i drigolion lleol yn parhau.

8.32 Er y gall fod effeithiau negyddol ar werth eiddo anheddau sydd agosaf at y safle, nid yw hyn yn ystyriaeth gynllunio bwysig felly ni all y penderfyniad p'un ai i roi caniatâd cynllunio ai peidio ystyried hyn. Mae'n rhaid ystyried yr effaith ar fudd i'r cyhoedd yn nhermau'r effaith ar amwynder.

Awdurdod Cynllunio Lleol

8.33 Ni fyddai cost ychwanegol i'r awdurdod cynllunio lleol o'r opsiwn hwn ar gyfer eu swyddogaeth gynllunio, er efallai y bydd rhaid i'w tîm iechyd amgylcheddol ymchwilio i fwy o gwynion am niwsans statudol.

Llywodraeth Cymru

8.34 Mae cael caniatâd cynllunio heb amodau yn golygu nad oes costau ychwanegol i'w hystyried i ddyluniad y prosiect i dalu am fesurau lliniaru. Byddai gallu adeiladu safle rheoli ffiniau, yn amodol ar gydsyniadau statudol eraill, yn gost ariannol i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen ag ef. Nid yw a yw'r gost adeiladu yn fforddiadwy a bod gwerth am arian yn rhan o'r penderfyniad cynllunio a dyna fyddai angen i'r datblygwyr o fewn Llywodraeth Cymru ei ystyried ar wahân.

Buddion

Porthladd Caergybi

8.35 Y budd i'r Porthladd o wneud y gorchymyn hwn heb amodau yw'r sicrwydd cymharol ar gyfer cynllunio busnes y gall mewnfario nwyddau planhigion ac anifeiliaid barhau ynghyd â'r derbyniadau refeniw gwirioneddol y mae hyn yn eu darparu.

Busnesau sy'n mewnfario nwyddau

8.36 Y budd i fusnesau sy'n mewnfario nwyddau o Weriniaeth Iwerddon o wneud y gorchymyn hwn heb amodau yw'r sicrwydd cymharol ar gyfer cynllunio busnes y gall mewnfario nwyddau planhigion ac anifeiliaid barhau ynghyd â'r derbyniadau refeniw gwirioneddol y mae hyn yn eu darparu.

Gweithredwyr HGV

8.37 Y budd o wneud y Gorchymyn hwn yw y gall cludo nwyddau o blanhigion ac anifeiliaid barhau. Mae hefyd yn darparu parcio diogel parhaus ar gyfer llwythi cyn croesi gyda fferi y tu hwnt i'r cyfnod y daw y caniatâd dros dro i ben.

Trigolion lleol

8.38 Y fantais fechan i drigolion ehangach Caergybi yw bod llai o risg o weld parcio di-reolaeth gan HGV.

Awdurdod Cynllunio Lleol

8.39 Mae ychydig o fudd i'r awdurdod cynllunio lleol gan fod y datblygiad yn cefnogi gweithredu'r cynllun datblygu ond mae hyn yn cael ei leihau'n sylweddol gan y diffyg mesurau lliniaru oherwydd nad oes amodau lliniaru yn cael eu gosod. Mae gweithredu'r datblygiad ar ôl gwneud y gorchymyn yn golygu y byddai llai o angen i'r awdurdod ymyrryd â'r canlyniadau sy'n codi o dan opsiwn 1 (er enghraifft, parcio HGV).

Llywodraeth Cymru

8.40 Y brif fantais i Lywodraeth Cymru o wneud y gorchymyn heb unrhyw amodau yw nad yw cynlluniau adeiladu wedi'u cyfyngu, a allai ostwng costau adeiladu.

Opsiwn 3: Caniatâd cynllunio grant drwy orchymyn datblygu arbennig gydag amodau

Disgrifiad:

8.41 Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys gwneud y gorchymyn a chynnwys amodau sy'n gosod amlen ddatblygu lle asesir datblygiad fel un derbyniol mewn termau cynllunio.

Costau

Porthladd Caergybi

8.42 Ni fyddai costau ychwanegol i'r Porthladd o wneud y Gorchymyn.

Busnesau sy'n mewforio nwyddau

8.43 Ni fyddai costau ychwanegol i fusnesau o wneud y Gorchymyn.

Gweithredwyr HGV

8.44 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i weithredwyr HGV o wneud y Gorchymyn.

Trigolion lleol

8.45 Yn wahanol i opsiwn 2, byddai ychwanegu amodau i'r Gorchymyn yn golygu, er y bydd effeithiau andwyol ar y rhai sy'n byw agosaf at y safle, bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lleihau ac yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Bydd yr amodau'n rheoleiddio camau adeiladu a gweithredu'r datblygiad, gan osod y lefelau uchaf o ran sŵn, dirgryniad a golau y gall y datblygiad eu creu. Bydd effeithiau gweledol yn cael eu lliniaru drwy amodau sydd angen tirlunio a fydd yn lleihau'r effaith dros amser.

8.46 Fel gydag opsiwn 2, nid yw unrhyw ddibrisio anheddau yn ystyriaeth berthnasol yn y penderfyniad ynghylch rhoi caniatâd cynllunio drwy'r Gorchymyn neu beidio.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

8.47 Bydd gwneud y Gorchymyn gydag amodau yn golygu bod gan yr awdurdod cynllunio lleol gost barhaus sy'n gysylltiedig â monitro cydymffurfiaeth ag amodau. Mae amodau yn y Gorchymyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr ofyn am gymeradwyaethau perthnasol gan yr awdurdod cynllunio lleol, fydd â chost penderfynu, minws yr incwm ffioedd a gynhrychir.

Llywodraeth Cymru

8.48 Disgwylir i gostau Llywodraeth Cymru fod yn uwch nag Opsiwn 2 oherwydd gofynion lliniaru a osodir gan amodau fel ffensys acwstig i warchod

preswylwyr cyfagos rhag lefelau sŵn annerbyniol. Ni fu'n bosib gwahanu'r gost o fodloni'r amodau cynllunio arfaethedig o'r gost ehangach o adeiladu safle rheoli ffiniau yn y porthladd.

Manteision

Porthladd Caergybi

8.49 Yr un yw'r budd i'r Porthladd o wneud y gorchymyn hwn gydag amodau ag y bydd ar gyfer opsiwn 2. Y sicrwydd cymharol ar gyfer cynllunio busnes yw y gall mewnforio nwyddau planhigion ac anifeiliaid barhau ynghyd â'r derbyniadau refeniw gwirioneddol y mae hyn yn eu darparu.

Busnesau sy'n mewnforio nwyddau

8.50 Y budd i fusnesau sy'n mewnforio nwyddau o Weriniaeth Iwerddon o wneud y gorchymyn hwn gydag amodau yw'r sicrwydd cymharol ar gyfer cynllunio busnes y gall mewnforio nwyddau planhigion ac anifeiliaid barhau ynghyd â'r derbyniadau refeniw gwirioneddol y mae hyn yn eu darparu.

Gweithredwyr HGV

8.51 Y budd o wneud y Gorchymyn hwn yw y gall cludo nwyddau o blanhigion ac anifeiliaid barhau. Mae hefyd yn darparu parcio diogel parhaus ar gyfer llwythi cyn croesi ar y fferi y tu hwnt i'r cyfnod y daw y caniatâd dros dro i ben.

Trigolion lleol

8.52 O ran opsiwn 2, byddai mantais fechan i drigolion ehangach Caergybi o lai o risg o barcio di-reolaeth gan HGV. Mantais ychwanegol o'i gymharu ag opsiwn 2 yw y byddai cynnwys amodau yn y Gorchymyn yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

8.53 O ran opsiwn 2, mae budd cyfyngedig i'r awdurdod cynllunio lleol gan fod y datblygiad yn cefnogi gweithredu'r cynllun datblygu. Mae gweithredu'r datblygiad ar ôl gwneud y gorchymyn (gydag amodau) yn golygu y byddai llai o angen i'r awdurdod ymyrryd i ddelio â chanlyniadau a amlinellir yn opsiynau 1 a 2.

Llywodraeth Cymru

8.54 Budd yr opsiwn hwn i Lywodraeth Cymru yw budd caniatâd cynllunio, ar yr amod bod caniatadau statudol eraill hefyd yn cael eu rhoi, sy'n golygu y gallant symud ymlaen i'r gwaith adeiladu.

9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

- 9.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi ei ddefnyddio ar gyfer y diwygiadau arfaethedig. Does dim disgwyl i'r cynigion effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chwaith pa mor gystadleuol yw busnesau Cymru.

10. Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

- 10.1 Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 3. Bydd rhoi caniatâd cynllunio drwy orchymyn datblygu arbennig gydag amodau yn galluogi adeiladu safle rheoli ffiniau ym Mhorthladd Caergybi, gan leihau unrhyw darfu ar y porthladd a'r busnesau hynny sy'n mewnfario nwyddau planhigion ac anifeiliaid drwy'r porthladd. Bydd cynnwys amodau cynllunio yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol posibl.

11. Adolygiad ôl-weithredol

- 11.1 Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r caniatâd cynllunio yn yr un modd â phob caniatâd cynllunio arall.